

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWIWD YN ERW LAS, SARON (NODWYD BOD YSGOL PANT PASTYNOG WEDI CLOI) AR NOS LUN 31AIN O HYDREF 2016 AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Bari Evans (Cadeirydd), Elfed Williams, Hywel Davies, Jill Evans, Falmai Evans, Stanley Williams a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Iwan Jones, Gwennan Hughes, Iona Edwards-Jones, Philip Williams a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Joseph Welch.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 26ain o Fedi 2016 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd ymateb oddi wrth Adran Addysg Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau bod yr Adran wedi trafod y cais cynllunio am 36 o dai ychwanegol gyda'r Adran Cynllunio a bydd yr Adran Addysg yn edrych ar y gwahanol opsiwn sydd angen ar Ysgol Bro Cinmeirch ar ôl penderfyniad y cais cynllunio. Penderfynwyd gofyn am ymateb ychwanegol oddi wrth yr Adran Addysg gan fod yr ymateb yn fyr ac yn ddiffygiol o unrhyw fanylion.

B. Cadarnhawyd Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych byddent yn ymweld ar sale carafannau Cae'r Mynydd i weld faint o garafannau sydd ar y safle i gymau ar geisiadau cynllunio.

C. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn trefnu i docio'r glaswellt ar wrych mynediad y Llwybr Cyhoeddus wrth Gapel Saron.

D. Derbyniwyd adroddiad y Cyngorydd Elfed Williams ynglŷn ar "Diffibriliwr" yn Llanrhaeadr a Saron a chytunodd adroddi yn ôl yn cyfarfod nesaf y Cyngor ar ôl ymwneud ymchwil ymhellach gyda'r offer sydd eisiau gyda'r "Diffibriliwr".

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £12,283.00.

B. Taliadau:-

1. Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod mis Medi'r Cyngor - £15.00.

2. Capel Y Pentref, Llanrhaeadr am gyfarfod mis Awst y Cyngor - £20.00.

C. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych bydd amcan gost etholiad Cyngorau Cymunedol Mai 2017 yn £1,700.00.

D. Derbyniwyd Ffurflen Flynyddol am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2016 wedi ei chadarnhau gan Gwmni BDO, Archwiliwr Allanol y Cyngor.

5. MATERION CYNLLUNIO.

A. Derbyniwyd gwybodaeth bod Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Newid defnydd y Gym, Ystafelloedd Bwyty a Chaffi ar gyfer Ystafelloedd Priodasau Achlysurol a Lleoliad Cofrestru yn Y Coach House, Llanrhaeadr Hall, Llanrhaeadr.

2. Codi porth i flaen yr annedd yn 2 Maes Garnedd, Peniel.

B. Mae'r ymgeisydd wedi tynnu'n ôl y cais cynllunio am dyrbin wynt ym Meifod, Saron.

C. Mae'R Arolygaeth Gynllunio wedi gwrthod yr apêl am ddau dyrbin wynt ar dir yn Foel Uchaf, Cyffylliog.

D. Ceisiadau cynllunio i'w thrafod:-

1. Ymgynghoriad ciosg BT ar Flychau Ffon ar safleoedd amrywiol o amgylch Sir Ddinbych. Penderfynwyd gwrthwynebu'r bygythiad o gau'r Blychau Ffon ym Mhentref Llanrhaeadr a Prion.
2. Codi adeilad amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid yn Fferm y Foel, Peniel - dim gwrthwynebiad.
3. Is-orsaf Trydan i'r Ffermydd Wynt yng Nghoedwigaeth Clocaenog. Cytunodd y Cadeirydd i ofyn i'r Cyngorydd Iona Edwards-Jones i wneud sylwadau i'r cais cynllunio dros y Cyngor Cymuned.

#### 6. GOHEBIAETH.

- A. Derbyniwyd gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod blynyddol rhwng Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych a'r Cyngorau Cymunedol Sir Ddinbych ar nos Fercher 16eg o Dachwedd 2016 yn Neuadd y Sir, Rhuthun am 6.30 o'r gloch.
- B. Derbyniwyd gwybodaeth fydd Dathliad y Nadolig Cyngor Sir Ddinbych ar nos Fawrth 6ed o Ragfyr 2016 yn Eglwys y Plwyf Rhuddlan am 7.00 o'r gloch.
- C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

#### 7. UNRHYW FATER ARALL.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ganlynol:-

- A: Ail sefydlu'r arwydd yn y groesffordd yn Saron.
- B. Ail sefydlu'r arwydd tuag at Lanrhaeadr ar groesffordd Pen-y-groes ym Mhrion.
- C. Caniatâd am sefydlu sgip yn y gymuned â dau ddiwrnod y flwyddyn.
- D. A oes bosib gyrru cylchlythyr y Cyngor Cymuned gyda'r biliau Treth y Cyngor.
- E. Gofyn am reil llaw ychwanegol ar y ffens llwybr ar gyfer tai stad "Bodafon" yn Llanrhaeadr.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 28ain o Dachwedd 2016 yn Ysgol Bro Cinmeirch am 7.30 o'r gloch.